



Cyfnewid papurau banc y Bank of England sydd wedi'u tynnu o gylchrediad

Mae papurau banc dilys y Bank of England sydd wedi'u tynnu o gylchrediad yn cadw eu hwynebwerth am byth a gellir eu cyfnewid yn y Bank of England yn Llundain. Nid oes ffi am y gwasanaeth hwn. Gellir cyfnewid papurau banc o'r math hwn naill ai trwy'r bost neu'n bersonol.

Os gwelwch yn dda byddwch yn ymwybodol nad ydym yn cynnig gwasanaeth cyfnewid am ddarnau o arian; os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch darnau o arian sterling cysylltwch â'r Bathdy.

Cyfnewid eich papurau banc trwy'r bost

Anfonir papurau banc trwy'r bost ar fenter yr anfonwr – felly rydym yn argymhell y cymerir mesurau priodol er mwyn yswirio yn erbyn colled neu ladrad.

1) Cwblhewch ffurflen gyfnewid papurau banc Cyhoeddus;

2) Os yw'r gwerth cyfan rydych eisiau'i gyfnewid yn £1,000 neu fwy, os gwelwch yn dda anfonwch dystiolaeth ffotogopi o ddilysiad hunaniaeth (ID) a thystiolaeth am gyfeiriad. Os yw'r gwerth yn llai na £1,000, fel arfer nid oes angen am ID. *Os ydych yn dymuno i'r arian gael ei dalu i gyfrif trydydd parti, anfonwch dystiolaeth ffotogopi o'r dilysiad hunaniaeth a thystiolaeth o gyfeiriad deiliad y cyfrif hefyd.

3) Anfonwch eich papur(-au) banc, ffurflen gyflawn ac ID ffotogopi at y cyfeiriad dilynol:

Adran NEX
Bank of England
Threadneedle Street
London
EC2R 8AH

Cyfnewidiadau busnes trwy'r bost

1) Cwblhewch ffurflen gyfnewidiadau papurau banc Busnes;

2) Cynhwyswch lythyr eglurhaol a lofnodir gan gynrychiolydd y cwmni ar bapur â phennawd y cwmni i roi dystiolaeth bod angen am y cyfnewidiad.

3) Anfonwch eich papur(-au) banc, ffurflen gyflawn a llythyr eglurhaol y cwmni at y cyfeiriad dilynol:

Adran NEX
Bank of England
Threadneedle Street
London
EC2R 8AH

Ad-delir ceisiadau trwy'r bost am gyfnewidiadau papurau banc sy'n dod o'r tu mewn i'r DU gan arian parod sterling os yn £50 neu lai neu drwy daliad Bacs ar gais y cwsmer. Telir cyfnewidiadau papurau banc trwy'r bost sy'n dod o'r tu mewn i'r DU ac sy'n fwy na £50 trwy Bacs.

Bydd ceisiadau a dderbynnir o'r tu allan i'r DU yn cael eu talu'n electronig i'ch cyfrif banc lleol mewn sterling (GBP) neu fel arall, cyhoeddir siec sterling.

Os gwelwch yn dda nodwch eich enw a, ble fo'n briodol, fanylion cyfrif banc yn glir.

Cyfnewid eich papurau banc yn bersonol

1) I gyfnewid eich papurau banc yn bersonol dewch â nhw i'r cyfeiriad dilynol:

Bank of England
Stryd Threadneedle
Llundain

Oriau agor: Llun i Wener 9:00yb tan 3yh, ac eithrio Gwyliau'r Banc

Gorsaf Drên Danddaearol Llundain: Bank (Central Line, Northern Line a Docklands Light Railway)

2) Sicrhewch eich bod yn dod â chopïau o'ch ID a thystiolaeth am gyfeiriad ar gyfer cyfnewidiadau sy'n dod at £1,000 neu fwy. Os yw'r gwerth yn llai na £1,000 fel arfer nid oes angen am ID. * Os ydych yn dymuno i'r arian gael ei dalu i gyfrif trydydd parti, anfonwch dystiolaeth ffotogopi o'r dilysiad hunaniaeth a thystiolaeth o gyfeiriad deiliad y cyfrif hefyd.

3) Pan ydych yn cyrraedd y Bank of England disgwylir ichi gwblhau ffurflen gyfnewid papurau banc.

4). Efallai na fydd yn bosibl cyfnewid hawliad ar yr un diwrnod, yn arbennig os yw o werth uchel. Os yw hwn yn wir rhoddir derbyneb ichi a bydd y Banc yn anfon taliad Bacs i gredydu'ch cyfrif o fewn 10 niwrnod gweitho. Os oes angen arian parod arnoch, byddwn yn gwneud apwyntiad ichi gasglu'r arian parod.

Cyfnewidiadau busnes personol

1) Yn ychwanegol at y gofynion uchod, bydd angen ichi ddarparu'r wybodaeth ddilynol wrth gwblhau ffurflen gyfnewid busnes;

- Enw'r Cwmni
- Rhif Gofrestredig
- Swyddfa Gofrestredig yn y wlad gorffori
- Cyfeiriad Busnes

2) Mae angen llythyr eglurhaol i roi tystiolaeth am yr hyn uchod y dylid ei lofnodi gan gynrychiolydd y cwmni ar bapur â phennawd y cwmni, yn dirprwyo awdurdod i chi i gyflwyno'r cyfnewidiad yn bersonol.

3) Fel yr ymgeisydd dirprwyedig, os gwelwch yn dda sicrhewch eich bod yn dod â chopïau **gwreiddiol eich** ID a thystiolaeth am gyfeiriad.

*Yn ôl disgrisiwn y Banc, gellir cadw papurau banc ar unrhyw werth er mwyn i wiriadau ychwanegol ddigwydd; efallai y bydd angen ichi ddarparu ID ar unrhyw werth neu ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol i gefnogi tarddiad datganedig y papurau banc.

<u>Dilysiad Hunaniaeth Derbyniol</u>	<u>Tystiolaeth Dderbyniol o Gyfeiriad</u>
Pasbort Dilys	Trwydded Yrru Cerdyn-Llun Dilys (llawn neu dros dro) Os nas defnyddiwyd fel dilysiad ID
Trwydded Yrru Cerdyn-Llun Dilys (llawn neu dros dro)	Cofrestr Etholiadol
Cerdyn Hunaniaeth Cenedlaethol (i ddinasyddion nad ydynt o'r DU)	Bil Gwasanaeth neu Dystysgrif gan Gyflenwr Gwasanaethau*

Tystysgrif Arfau Tanio neu Drwydded Gwn Haels	Bil Treth Awdurdod Lleol*
	Datganiad/Paslyfr Banc, Cymdeithas Adeiladu neu Undeb Credyd*
	Datganiad Morgais Diweddaraf
	Cerdyn Rhent neu Gytundeb Tenantiaeth Cyngor Lleol
	Llyfr/Llythyr Budd-daliadau gan yr Asiantaeth Budd-daliadau*
	Bil Ffôn (ac eithrio ffonau symudol)*
	Bil Cerdyn Credyd*
	Hysbysiad treth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi*
	Llythyr gan Ganolfan Byd Gwaith yn cadarnhau'r Rhif Yswiriant Gwladol*

*O dan amgylchiadau eithriadol gallai'r Bank of England, yn ôl ei ddisgresiwn, dderbyn moddion adnabod eraill. Os na allwch ddarparu unrhyw un o'r mathau o adnabod neu dystiolaeth o gyfeiriad a restrir, cysylltwch â'r Bank of England cyn cyflwyno'ch hawliad.

*Dylai dystiolaeth cyfeiriad fod yn ddyddiedig o fewn y chwe mis diwethaf.

Mae'r Bank of England yn cynnig rheoleiddiad a diogelwch ar gyfer pob papur banc sterling. Mae rôl y Banc ynghylch papurau banc yr Alban a Gogledd Iwerddon a gwybodaeth ar y cyhoeddiadau a ddilyswyd ar gael trwy ddolenni cysylltiedig.

DEDDF DIOGELU DATA 1998 – HYSBYSIAD CASGLU TEG

Bydd y Bank of England yn prosesu'ch gwybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiogelu data gyfredol. Efallai y bydd y Bank of England yn prosesu'ch gwybodaeth at ddibenion gweithgareddau busnes a chysylltiedig y Banc, ac i gydymffurfio â deddfau a rheoliadau cymwys. Gallen rannu'r wybodaeth hon gyda rhannau eraill o'r Banc. Wrth wneud taliadau gall y Banc ddarparu data personol i sefydliadau ariannol a systemau talu sy'n gysylltiedig â gwneud y taliad. Wrth gydymffurfio â deddfau cymwys a brwydro yn erbyn trosedd a therfysgaeth gallai data gael ei ddatgelu i unrhyw endid o'r llywodraeth, awdurdod rheoleiddio neu unrhyw berson arall mae'r Banc yn ystyried yn rhesymol bod ei angen a allai olygu bod data personol yn cael ei drosglwyddo i'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Fodd bynnag, ni fydd y Banc yn datgelu data personol i drydydd partion at ddibenion marchnata. Mae gennym fesurau yn eu lle i gadw'ch data personol yn ddiogel. Mae gennych yr hawl i ofyn am gopi o wybodaeth a ddelir amdanoch yng nghofnodion y Banc (gellir codi ffi fach am hyn) ac efallai byddwch angen i'r Banc gywiro unrhyw anghywirdebau, trwy ysgrifennu at y Tîm Cydymffurfio Gwybodaeth, Bank of England, Threadneedle Street, London, EC2R 8AH.